# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 5 |
| 6 - Cynnydd Disgyblion yn y Canolfannau Iaith | 11 |
| Atodiad 1 | 13 |
| 8 - Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg | 15 |
| 9 - Cwynion Iaith | 17 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR IAITH

# LANGUAGE COMMITTEE

**10.30AM, DYDD GWENER, 4 EBRILL, 2014**

**10.30AM, FRIDAY, 4 APRIL, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA,**
**SWYDDFA'R CYNGOR / COUNCIL OFFICES,**
**STRYD Y JÊL / SHIREHALL STREET,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**EIRIAN ROBERTS**

**(01286) 679018**

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 28/03/14)*

# PWYLLGOR IAITH
# LANGUAGE COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

### Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Craig ab Iago | Liz Saville Roberts |
| Elwyn Edwards | Mair Rowlands |
| Alan Jones Evans | Gareth Thomas |
| Dyfrig Jones | Mandy Williams-Davies |

### Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Tom Ellis | Eirwyn Williams |
| Eric M.Jones | Elfed Williams |

### Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

| | |
|---|---|
| Gweno Glyn | Gruffydd Williams |
| Alwyn Gruffydd | |

### Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

### Aelod Arall a Wahoddir / Other Invited Member

Y Cynghorydd / Councillor Ioan Thomas – Aelod Cabinet – Y Gymraeg / Cabinet Member – The Welsh Language

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2014 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

**5. DIWEDDARIAD CYNLLUN PENCAMPWYR IAITH A DEFNYDD O'R IAITH YNG NGHANOLFANNAU HAMDDEN BANGOR, TYWYN A DOLGELLAU**

Derbyn adroddiad llafar gan yr Uwch Reolwr Gweithredol, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden.

**6. CYNNYDD DISGYBLION YN Y CANOLFANNAU IAITH**

Derbyn adroddiad y Pennaeth Addysg (copi ynghlwm).

**7. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY**

Cyflwyno diweddariad gan Gadeirydd y Grŵp Ymchwiliad Craffu.

**8. YMCHWILIAD SAFONAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG**

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi ynghlwm).

**9. CWYNION IAITH**

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi ynghlwm).

# PWYLLGOR IAITH, 15.01.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Eric Merfyn Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Debbie Anne Williams Jones, (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Dewi R.Jones (Pennaeth Addysg), Bethan Eleri Roberts, (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg), Sharon Warnes, (Ymgynghorydd Allanol), Geraint Owen, (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Man Cyfarfod**

Ar fyr rybudd, cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod yn Siambr Arfon, yn hytrach nag Ystafell Glyder Fawr. Yn ogystal, cyfeiriodd y Cadeirydd at drefniadau oedd yn cael eu gwneud ar gyfer cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn yn gyson ar yr un diwrnod o'r wythnos yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gweno Glyn, Tom Ellis, Dyfrig Jones a Gruffydd Williams.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. MATER BRYS - Ymdrin â phresgripsiwn Cymraeg**

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater brys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd ei bod o'r farn y dylid ystyried y mater yn ddiymdroi.

Cyfeiriodd aelod at ddigwyddiad yn fferyllfa cwmni Morrisons ym Mangor yn ddiweddar pryd y gwrthodwyd ymdrin â phresgripsiwn oherwydd ei fod wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg.

Gwyddai am feddyg oedd yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu presgripsiwn 30 mlynedd yn ôl a phwysleisiodd fod agwedd cwmni Morrisons yn annerbyniol. Awgrymodd y dylid ceisio cael gwybodaeth ynglŷn â Pholisi Iaith y Bwrdd Iechyd.
Fodd bynnag, esboniwyd nad oedd cwestiynu polisi corff arall o fewn awdurdod y Pwyllgor Iaith ac y byddai'n fwy rhesymol i gysylltu â'r Comisiynydd Iaith i ddatgan pryder y Pwyllgor.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd yr Aelod Cabinet – y Gymraeg y byddai'n fwy o werth iddo ddatgan anfodlonrwydd y Pwyllgor Iaith yn hytrach na cheisio gwybodaeth parthed Polisi Iaith y Bwrdd Iechyd.

**Penderfynwyd yn unfrydol bod yr Aelod Cabinet – y Gymraeg yn ysgrifennu at y Comisiynydd Iaith a chwmni Morrisons yn datgan anfodlonrwydd y Pwyllgor Iaith ynglŷn â'r modd y gwrthodwyd y presgripsiwn Cymraeg yn fferyllfa'r cwmni ym Mangor.**

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2013, fel rhai cywir yn ddarostyngedig i newid geiriad eitem 1 yn y fersiwn Gymraeg fel ei bod yn darllen fel a ganlyn:
*'Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Gweno Glyn yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.*

## 4. SAFONAU IAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn nodi bod disgwyl i holl Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol Cymru ymgymryd ag Ymchwiliad Safonau, yn unol â'r datganiad a wnaed gan y Comisiynydd Iaith.

Bydd yr Ymchwiliad Safonau yn cychwyn ar 27 Ionawr, 2014, a bydd y broses, a drefnir ar ffurf holiadur, yn cymryd 12 wythnos.

Esboniwyd bod Safonau Iaith, yn wahanol i Gynlluniau Iaith, yn cael eu gosod ar sefydliad, yn hytrach na'u cytuno. Mae'r Comisiynydd Iaith yn rhagweld y bydd pob corff perthnasol yn gweithredu'r safonau ymhen dwy flynedd.

Nododd aelodau fod Cyngor Gwynedd wedi cyrraedd y nôd eisoes o ran y safonau, ond y dylid ymdrechu i fynd gam ymhellach, ac yn sicr na ddylid camu'n ôl.
'Roedd yr aelodau hefyd yn awyddus i ymateb yn gadarnhaol i unrhyw newidiadau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 5. CYFLWYNIAD ADRANNOL – ADNODDAU DYNOL

Dosbarthwyd papurau cefndir ymysg yr aelodau, a chyflwynwyd adroddiad, yn ymdrin ag 'Ystadegau Recriwtio a Phenodi/Hyfforddiant Iaith', gan Uwch Reolwr Adnoddau Dynol.

Yn y cyflwyniad, amlygwyd y pwyntiau canlynol:
i) Bod lle pwysig i'r gweithle o ran hyrwyddo'r Gymraeg;
ii) Bod nifer siaradwyr Cymraeg o fewn gweithlu Cyngor Gwynedd yn cynyddu;
iii) Bod Cyngor Gwynedd yn tanlinellu pwysigrwydd y defnydd o'r Gymraeg wrth gydweithio gydag awdurdodau a chyrff eraill.

O ran yr ystadegau, nodwyd bod 397 o hysbysebion am swyddi o fewn Cyngor Gwynedd wedi eu cyhoeddi rhwng Hydref 2012 a Medi 2013. O'r rhain bu'n rhaid ail-hysbysebu 26, ond pwysleisiwyd nad oedd y gofyniad perthnasol i'r iaith Gymraeg yn rheswm dros yr ail-hysbysebiad.

Ymhelaethwyd gan roi sylw i :
- Staff sy'n derbyn hyfforddiant iaith;
- Lefel hyfforddiant iaith.

Tynnwyd sylw penodol at y ffaith fod 54 aelod o staff y Cyngor yn derbyn hyfforddiant iaith a bod 31 o'r rhain o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden. Ystyrir fod gweithlu canolfannau hamdden yn amlwg ymysg y nifer yma.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan aelodau, cyfeiriwyd at grŵp a sefydlwyd er mwyn ymateb i'r Fframwaith Strategol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal yn benodol. Nodwyd bod hyn yn tanlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:-

- ei bod yn deg i gyfleu'r awydd i gyflwyno hyfforddiant cyffredinol, megis hyfforddiant i gadeiryddion, drwy gyfrwng y Gymraeg;
- bod ymdrechion i benodi darparwyr allanol gyda'r gallu i ddarparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiol feysydd yn profi'n llwyddiant;
- bod hyfforddiant ym maes 'lles meddyliol', sydd bellach ar gael yn Gymraeg, yn enghraifft o hyn;
- bod y cymal yn nodi'r gallu i siarad Cymraeg fel bod yn 'hanfodol' yn cael ei gynnwys ym mhob hysbyseb swydd o fewn y Cyngor;
- bod diffyg hyder yn achosi rhai gweithwyr i ddewis peidio siarad Cymraeg, er bod y gallu ganddynt i wneud hynny;
- bod gwaith yn cael ei wneud i ymdrin â hyn drwy gynnal sesiwn hyfforddi;
- bod yr ymdrechion uchod wedi profi'n llwyddiant eisoes gyda darparu hyfforddiant perthnasol i derminoleg gweithgaredd canolfannau hamdden yn enghraifft o hyn;
- bod canran uchel o'r rhai sy'n cael eu penodi i swyddi parhaol yn derbyn hyfforddiant iaith ac yn barod i fanteisio'n llawn ar y dilyniant a gynigir;
- gallai tuedd rhai i siarad Saesneg yn ystod sgwrs ar y ffôn fod yn enghraifft bellach o ddiffyg hyder a bod lle yma eto i ddarparu hyfforddiant;
- bod rhaglen waith wedi ei sefydlu ar gyfer y dyfodol yn unol â'r Fframwaith Iaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

**6. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2014-2017 DRAFFT**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r ymgynghorydd allanol

Esboniwyd mai Hunaniaith sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd. Un o'r ymrwymiadau o fewn rhaglen waith Hunaniaith ar gyfer 2013/14, yw llunio Strategaeth Iaith Gwynedd 2014 – 2017 a Chynllun Gweithredu Drafft.

Comisiynwyd ymgynghorydd i ymdrin â'r gwaith yma ac adnabu, ar y cyd â Hunaniaith y 6 maes strategol canlynol i'w cynnwys yn y ddogfen ddrafft:-

- Y Teulu;
- Plant a Phobl Ifanc;
- Cymunedau;
- Darparu Gwasanaethau Cymraeg;
- Y Gweithle;
- Y Seilwaith

Mae'n ddyletswydd ar y Pwyllgor Iaith i gyflawni rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y Sir. Yn sgil hyn, cyflwynwyd y Strategaeth Ddrafft gerbron y pwyllgor er mwyn rhoddi cyfle i'r aelodau i leisio barn.

Ymhelaethwyd ar gynnwys y Strategaeth Ddrafft gan ymdrin â'r 6 maes yn unigol. Cyfeiriwyd yn benodol at bwysigrwydd y 'seilwaith' gyda'r berthynas glos rhwng yr economi, tai a'r iaith Gymraeg yn cael ei nodi.

Nodwyd mai plant a phobl ifanc yw'r cenhadwyr ar gyfer y dyfodol a bod hyn yn gysylltiedig â'r angen i godi ymwybyddiaeth a marchnata'r Gymraeg. Yn berthnasol i hyn, nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau fod cyfleoedd ar gyfer yr ifanc oherwydd bod colli'r ifanc yn golygu colli gwaith, gyda'r iaith a'r economi yn dioddef yn sgil hynny.

## 7. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2014-2017

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Gyngor Gwynedd ers 1996 mewn perthynas â'r hyn sy'n delio'n benodol â'r Gymraeg mewn Addysg.

Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg'. Dyma'r tro cyntaf i'r cynlluniau yma fod o dan drefn statudol, a chaiff y trefniadau eu gweithredu o Ebrill 1, 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth, 2017.

Ymhelaethodd y Pennaeth gan egluro y bydd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn fodd i Lywodraeth Cymru allu monitro'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn ymateb i'r angen i weithredu nodau'r Strategaeth a chyfrannu tuag atynt trwy:

- sicrhau fod pob cam o brosesau addysg yr awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Cymraeg;
- ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, lle bo galw, ar sail cynllunio gwell;
- sicrhau fod gwasanaethau cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflwyno ar sail consortia;
- wella safonau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc;
- dangos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Cyfeiriwyd at fwriad y Cynllun Strategol, a thynnwyd sylw at y nôd o allu dangos cynnydd clir, dros dair blynedd ym mhob awdurdod lleol ac ardal consortiwm tuag at gyflawni targedau'r Strategaeth.

Adroddwyd mai canolbwynt y Cynlluniau yw'r targedau a geir yn y Strategaeth a disgwylir i'r awdurdodau adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd yn erbyn y targedau a ganlyn :

- mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o garfan Blwyddyn 2;
- mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mwy o fyfyrwyr 16-19 yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Cyflwynwyd copi drafft o'r 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2014 - 2017 ar gyfer derbyn sylw'r aelodau.

Tywysodd y Pennaeth yr aelodau drwy'r copi drafft a nodwyd mai nôd uchelgeisiol yr Adran Addysg yw :- *sicrhau fod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni..*

Yn dilyn adolygiad trylwyr o Gynllun Strategol 2013-14, cytunwyd y byddai'r Cynllun Strategol (2014-17) Statudol yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol o safbwynt y

Gymraeg fel iaith ac fel cyfrwng gan eu gosod fel nodau clir i raglen waith tair blynedd y Cyngor:-

- Gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg yn ystod addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar. (98.6% o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg);
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA2 i CA3. (100% o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd);
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu o CA3 i CA4.
- Cryfhau'r gweithredu yn yr ardaloedd/ysgolion lle mae data yn dangos yr angen gan arfogi ein penaethiaid a hyfforddi ein gweithlu i ymgyrraedd yn llawn at nôd y Cynllun;
- Cryfhau'r defnydd o'r carfanau iaith fel offeryn cynllunio dilyniant mewn ysgolion uwchradd;
- Datblygu Bagloriaeth Cymru ar lefelau 1, 2 a 3 yn yr ysgolion uwchradd;
- Cadarnhau gweithrediad y Siarter Iaith ymhob un o'r ysgolion cynradd, gan roi sylw amlwg i hyfforddi'r gweithlu gan ddatblygu'r elfennau cyfrwng methodoleg;
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol pobl ifanc yr ysgolion uwchradd trwy sefydlu a datblygu cynllun tebyg i Siarter Iaith yr ysgolion cynradd.

O wneud hyn yn llwyddiannus yn ystod y tair blynedd nesaf, rhagwelir y gall y gyfundrefn addysg gyflawn gyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg (iaith a chyfrwng) ac ansawdd addysg a phrofiadau plant a phobl ifanc Gwynedd. Tanlinellwyd pwysigrwydd hyn gan y Pennaeth.

Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu a'r deilliannau perthnasol, sef:

- Deilliant 1 – Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Deilliant 2 – Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- Deilliant 3 – Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Deilliant 4 – Mwy o fyfyrwyr 16 – 19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith;
- Deilliant 5 – Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg;
- Deilliant 6 – Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg;
- Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

Nodwyd bod Deilliant 2 yn faes y dylid rhoi sylw amlwg iddo. Esboniwyd nad yw Gwynedd yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y sir fod yn hyderus ddwyieithog.
Ceir eithriad i hyn ym Mangor gan fod dwy ysgol uwchradd, sef Ysgol Tryfan ac Ysgol Friars, yn rhannu'r un dalgylch. Mae disgwyliad cyffredin ar y ddwy ysgol i gynnig dilynniant Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 i'r disgyblion hynny ennillodd Lefel 3+ ar ddiwedd CA2. Gwelir gwahaniaeth rhwng darpariaeth drawsbynciol y ddwy ysgol. Yn Ysgol Tryfan cynigir yr holl bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond y disgwyliad tymor hir yn Ysgol Friars yw sicrhau fod rhannau o'r cwricwlwm ar gael yn ddwyieithog.
Nodwyd y bydd annog Ysgol Friars i symud fwyfwy tuag at y targed yn un o flaenoriaethau'r Cynllun Strategol ac yn brif faes ar gyfer trafodaethau yn nalgylch y ddwy ysgol ynglŷn â sut orau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar hynny.

Cadarnhawyd bod camau, megis dysgu Cymraeg i aelodau o staff, eisoes wedi eu cymryd er ceisio sicrhau hyn.

Cyfeiriwyd at yr angen i sicrhau fod cyrsiau galwedigaethol cydweithredol a ariennir trwy grant Llwybrau Dysgu ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog. Dim ond mewn eithriadau prin iawn y rhoddir ystyriaeth i gefnogi cyrsiau fydd ar gael mewn un iaith yn unig.

O safbwynt cyrsiau ôl - 16, cyfeiriwyd at yr angen i sefydlu fframwaith o fesurau ar gyfer dwyieithrwydd fel bo darpariaeth, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol, yn cael ei fonitro ac i adnabod bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nodwyd mai pwysigrwydd hyn yw creu gweithlu ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod papurau arholiad yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg fel bod modd i'r disgyblion / myfyrwyr ddewis pa iaith i'w defnyddio. Ychwanegwyd bod yr iaith a ddefnyddir yn dibynnu i raddau ar y profiad a gafwyd eisoes mewn arholiadau mewnol ysgolion ac ati.
Gellid gosod mesurydd er mwyn canfod pa iaith a ddefnyddir.

Nododd aelod y gallai problemau godi ar adegau oherwydd ei bod yn haws defnyddio'r Saesneg a bod cael gwybodaeth o wefannau yn enghraifft o hyn. Fodd bynnag, croesawodd y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg fel modd i gryfhau'r iaith Gymraeg.

Cadarnhawyd hefyd fod hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd eraill yn cael ystyriaeth.

Ar derfyn y drafodaeth dosbarthwyd y pamffled 'Siarter Iaith Gwynedd' ymysg yr aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a wnaed fel y gellir cyflwyno'r fersiwn ddrafft i'r Llywodraeth.**

**8. CWYNION IAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cyfeirio at gwynion a dderbyniwyd yn ystod Hydref a Thachwedd, 2013.
Galwyd ar i'r adroddiadau perthnasol i gwynion iaith fod yn fanylach yn y dyfodol. Nodwyd mai braslun yn unig o'r cwynion a'r ymatebion oedd yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ac y byddai gwybodaeth fanylach o werth er mwyn i'r Pwyllgor Iaith allu gweithio'n effeithiol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r angen i gael gwybodaeth fanylach o fewn yr adroddiadau yn y dyfodol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.30pm.

**EITEM 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR IAITH Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 7 Ebrill 2014 |
| **TEITL** | Cynnydd disgyblion yn y Canolfannau Iaith |
| **PWRPAS** | I ystyried cynnwys yr adroddiad a'r cyflwyniad, a chynnig sylwadau |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Sian Gwenllian |

**CEFNDIR**

Nôd y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith ac i osod sylfaen dda yn y Gymraeg i fewnfudwyr. Mae cyswllt da yn bodoli rhwng yr ysgolion a'r canolfannau, a'u llwyddiant i'w weld yn amlwg pan ddychwela'r disgyblion i'w hysgolion a'u cymunedau gyda sylfaen gadarn yn y Gymraeg wedi tymor o ddysgu dwys.

Erbyn hyn mae pedair canolfan gynradd ac un ganolfan uwchradd, sy'n gwbl unigryw yng Nghymru. Lleolir y canolfannau cynradd yng Nghaernarfon, Dolgellau, Llangybi a Phenrhyndeudraeth, a'r ganolfan uwchradd ym Mhorthmadog.

**CANOLFANNAU IAITH CYNRADD**

Gwneir defnydd helaeth o ddarpariaeth y Canolfannau Iaith lle bydd disgyblion 7 - 11 oed (CA2) sydd yn hwyrddyfodiaid i'r Sir yn mynychu cwrs dwys am dymor (12 wythnos - yn ddibynnol ar hyd y tymor) er mwyn eu trochi a'u paratoi ar gyfer derbyn rhan helaeth o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog pan ddychwelant i'w hysgolion. Cwrs amlgyfrwng a thrawsgwricwlaidd ydyw a seilia'r athrawon eu cynllun gwaith ar hwn. O reidrwydd rhoddir lle amlwg i waith llafar a gwneir defnydd o weithgareddau drama a cherddoriaeth yn ogystal â defnydd cynyddol o Dechnoleg Gwybodaeth. Mae'r cynllun yn galluogi'r disgyblion i ddychwelyd i ysgolion eu hardal a dilyn eu cwricwlwm yn y Gymraeg.

Ar ddiwedd y tymor, yn ôl yr arferiad, cofnodir cynnydd pob disgybl mewn adroddiad yn rhoi sylw i'r tri Tharged Cyrhaeddiad, gan berthnasu'r sylwadau â Disgrifiadau Lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol. Y nôd yw i bob disgybl gyrraedd Lefel 2 / 3 o leiaf yn y Gymraeg.

**CYFLWYNIAD AR LEFELU LLAFAREDD DISGYBLION**

Er mwyn dangos cynnydd disgyblion sy'n mynychu'r Canolfannau Iaith, **rhoddir cyflwyniad yng nghyfarfod Y Pwyllgor Iaith** ar lefelu llafaredd disgyblion, gan arddangos enghreifftiau o'r gwahanol lefelau, sydd yn ffrwyth gwaith Canolfannau Iaith Gwynedd, Môn a Chonwy.

Gweler ynghlwm (Atodiad 1) bapur sy'n amlinellu dehongliad Lefel 1, 2 a 3 o ran:

- Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg Iaith Gyntaf

- Dehongliad Lefelu Llafaredd Canolfannau Iaith Gwynedd
- Cwricwlwm Ail Iaith

Tynnir sylw yn benodol at y pwyntiau a ganlyn:

- Gan mai Cymraeg iaith gyntaf ydy cyfrwng unrhyw brawf neu asesiad yng Ngwynedd, mae'n rhaid lefelu'r plant yn ôl gofynion y Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Cyfyng yw iaith y dysgwr yn ystod yr wythnosau cyntaf. Gan nad ydynt wedi bod yn agored i flynyddoedd o brofiadau ieithyddol amrywiol, rhaid oedd addasu gofynion lefel 1 a 2 a'u cyfateb i brofiadau ieithyddol plant yn y Canolfannau.
- Gweithgareddau sydd ynghlwm i **ddysgu ar y cof** sy'n cyfateb i ofynion lefel 1 i'r dysgwr.
- Mae lefel 2 yn cyfateb i'r cymal rhoi'r 'iaith ar waith' lle gwelir y dysgwr yn dechrau defnyddio'r iaith sydd ganddo ar y cof i bwrpas. Gwelir pontio yma rhwng rhai cymalau disgrifiadau lefel y Gymraeg iaith gyntaf a dehongliad lefelau'r Canolfannau Iaith e.e. defnydd ystod gynyddol o eirfa a phatrymau iaith sy'n gywir, dechrau dangos hyder ayyb.
- Ni ystyrir plentyn sydd wedi cyrraedd lefel 3 yn 'ddysgwr'. Mae'r disgrifiadau lefel yn y Canolfannau Iaith erbyn hyn felly yn cyfateb i ofynion y Gymraeg iaith gyntaf. Bydd y plentyn yn siarad yn rhydd gan ddefnyddio iaith sy'n dangos ymwybyddiaeth o gysyllteiriau, ymadroddion ac ystod eang o batrymau brawddegol a.y.b
- Mae pob canolfan yn dod at ei gilydd i gymedroli a dod i gytundeb ar gyrhaeddiad a lefelau'r plant fel bod cysondeb ar draws y sir.
- Anfonir copi o'r adroddiadau at benaethiaid ysgol gartref y disgyblion, gyda'r gwahoddiad i ymweld â hwy ar ddiwedd eu cyfnod yn y canolfannau er mwyn iddynt weld cynnydd y plant cyn iddynt drosglwyddo'n ôl i ofal eu hysgolion.
- Cedwir enghreifftiau o waith ysgrifenedig y disgyblion yn ogystal â chofnod o'u gwaith llafar wedi ei ffilmio gyda chamera fideo. Bydd yr athrawon yn rhoi cyfle i athrawon yr ysgolion cynradd neu'r rhieni i weld rhai o'r rhain pan ymwelant â'r ganolfan.

Er mwyn sicrhau dilyniant priodol yn yr ysgolion bydd athrawon y ganolfan yn cynnig ôl-ofal i bob disgybl wedi iddynt ddychwelyd i'w hysgolion, yn ogystal â rhoi arweiniad i athrawon ynglŷn â'r dilyniant priodol ar gyfer y disgyblion.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r aelodau dderbyn y wybodaeth.

| **Cwrwicwlwm Cenedlaethol Cymraeg Iaith Gyntaf** | **Dehongliad Lefelu Llafaredd Canolfannau Iaith Gwynedd** | **Cwricwlwm Ail Iaith** |
|---|---|---|
| **LEFEL 1**<br>• siarad am faterion cyfarwydd fel unigolion ac mewn grwpiau.<br>• siarad yn ddealladwy.<br>• ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml.<br>• cyfleu gwybodaeth syml, yn ymateb i symbyliadau ac yn cynnwys rhai manylion, o gael cefnogaeth. | **LEFEl 1**<br>Gweithgareddau sydd ynghlwm i **ddysgu ar y cof** sy'n cyfateb i ofynion lefel 1 i'r dysgwr—<br>• dysgu drama a deialogau<br>• ymarferion holi ac ateb<br>• dilyn cyfarwyddiadau<br>• dysgu 'darnau o iaith' ar y cof<br>• siarad yn ddealladwy<br>Mae'r patrymau iaith yn eithaf caeedig. | **LEFEL 1**<br>• dangos dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion gan lais cyfarwydd ac ymateb iddynt mewn dulliau di-iaith neu ymadroddion byr<br>• siarad yn ddealladwy wrth ddynwared a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml.<br>• cyfleu gwybodaeth syml, o gael cefnogaeth yn gofyn ac yn ateb cwestiynau |
| **LEFEL 2**.<br>• Yn dechrau dangos hyder yn arbennig wrth sgwrsio am faterion sydd o fewn eu profiad a'u diddordeb.<br>• ymateb yn briodol ac yn cynnwys manylion addas, ar adegau<br>• ceisio, deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml, ac yn ymateb i ystod ehangach o symbyliadau<br>• ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy wrth ddatblygu ac esbonio eu syniadau<br>• defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir fel arfer. | **LEFEL 2**<br>Gweithgareddau sy'n ynghlwm i roi '**iaith ar waith'** sy'n cyfateb i ofynion lefel 2 i'r dysgwyr -<br>• defnyddio iaith i bwrpas, gyda chynhaliaeth ar adegau<br>e.e. disgrifio cymeriadau/<br>rhoi cyfarwyddiadau/<br>addasu modelau ieithyddol/<br>ailadrodd stori<br>• sgwrsio am faterion sydd o fewn profiad a diddordeb<br>• gweithgareddau llafar i feithrin hyder<br>• defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir fel arfer | **LEFEL 2**<br>• yn dangos dealltwriaeth o eitemau byr a leferir gan lais cyfarwydd e.e. (3 eitem) Sut wyt ti? Ble wyt ti'n byw? Mae'n braf. Ymateb trwy ddulliau di-iaith neu ymadroddion byr ar lafar e.e.ydw i, Dw i'n, Mae gen i<br>• yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml ac yn ymateb i ystod o symbyliadau.<br>• yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy ac yn amrywio peth ar eirfa a phatrymau. |
| **LEFEL 3**<br>• sgwrsio gyda pheth hyder mewn gwahanol gyd-destunau am brofiadau a digwyddiadau gan ddangos peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant<br>• gwrando'n ofalus ar eraill, ymateb yn berthnasol iddynt a dechrau gofyn cwestiynau priodol<br>• dechrau addasu eu siarad yn ôl gofynion y gynulleidfa<br>• mynegi barn yn syml<br>• siarad gyda pheth cywirdeb gan yngau a goslefu'n briodol ac amrywio geirfa a chywair<br>• cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn eglur gan amrywio brawddegau'n bwrpasol<br>• dechrau sylweddoli bod amrywiaeth yn yr iaith a glywant o'u cwmpas (symud o lefel 2) | **LEFEL 3**<br>• sgwrsio gyda pheth hyder mewn gwahanol gyd-destunau am brofiadau a digwyddiadau gan ddangos peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant<br>• gwrando'n ofalus ar eraill, ymateb yn berthnasol iddynt a dechrau gofyn cwestiynau priodol<br>• dechrau addasu eu siarad yn ôl gofynion y gynulleidfa<br>• mynegi barn yn syml<br>• siarad gyda pheth cywirdeb gan yngau a goslefu'n briodol ac amrywio geirfa a chywair<br>• cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn eglur gan amrywio brawddegau'n bwrpasol<br>• dechrau sylweddoli bod amrywiaeth yn yr iaith a glywant o'u cwmpas (symud o lefel 2) | **LEFEL 3**<br>• bydd y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o gyfres o eitemau byr a leferir gan lais cyfarwydd drwy ymateb yn ddi-iaith neu ar lafar h.y.sgwrs sy'n llifo e.e. John ydw i..Dw i'n byw yn...Dw i'n mynd i...<br>• yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn eglur.<br>• mynegi barn yn syml e.e. dwi 'n hoffi/ dw i ddim yn hoffi Gwneud rhai gosodiadau'n wirfoddol h.y. dim ymateb i gwestiwn/cynnig sylwadau heb ysgogiad e.e.a fi hefyd.<br>• yn ynganu ac yn goslefu yn ddealladwy gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa. h.y. Dw i'n, mae, mi ges i, es i, roedd o'n. Gellir cynnwys amrywiaeth o amserau'r ferf , ond nid o reidrwydd. |

## Cwricwlwm Ail Iaith

**LEFEL 4**

- ymgynefino a lleisiau amrywiol gan ddangos dealltwriaeth o brif bwyntiau materion cyfarwydd a gyflwynir iddynt mewn cyd-destunau cyfarwydd.
- ymateb trwy ddulliau di-iaith ac ymadroddion byr ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- yn cyflwyno gwybodaeth ac yn sôn am rai profiadau h.y. ehangu ar y wybodaeth e.e. dw i'n hoffi rygbi, es i i gem rygbi ar y penwythnos...gyda...mewn...am...o'r gloch. Holi ac ymateb a chynnig rhai sylwadau gwirfoddol.
- wrth fynegi barn bydd y dysgwr yn cynnig rhesymau amrywiol e.e. achos mae'n cŵl/grêt/ffantastig
- ynganu a goslefu yn ddealladwy gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol e.e. holi ac ymateb, mynegi barn, defnyddio'r trydydd person, ffurfiau negyddol.
- siarad gyda pheth cywirdeb h.y. dibynnu ar sylwebaeth yr athro/ gwybodaeth gefndirol. Patrymau creiddiol yn gywir.

**LEFEL 5**

- bydd y dysgwr yn dangos dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac yn ymateb iddynt.
- yn cychwyn sgwrs ac yn dangos mwy o hyder e.e. ga'i fenthyg
- dangos peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant yn y sgwrs h.y.llif i'r syniadau e.e. fy hoff bwnc yn yr ysgol ydi...achos mae'n...Dydd Llun, aethon ni gyda Mr Jones i....a gwelon ni....
- wrth fynegi barn, bydd y dysgwr yn rhoi rhesymau i esbonio ei syniadau h.y. rheswm dilys e.e.achos dw i'n.., achos mae o'n...
- yn siarad yn ddealladwy ac yn weddol rwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o ymadroddion, patrymau brawddegol a ffurfiau berfol e.e. Amser y ferf, trydydd person, ffurfiau negyddol
- siarad gyda mesur da o gywirdeb h.y. y cyfanwaith yn gywir ar y cyfan.
- 

**LEFEL 6**

- bydd y dysgwr yn dangos dealltwriaeth o'r iaith lafar a ddefnyddir mewn ystod o sefyllfaoedd cyfarwydd drwy ddewis manylion penodol.
- mewn trafodaeth bydd y dysgwr yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau gan eraill ac yn ymateb drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau sy'n berthnasol.
- wrth fynegi barn, bydd y dysgwr yn cytuno neu'n anghytuno ac yn rhoi rhesymau i gefnogi'r farn honno.
- siarad yn rhwydd gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol ac yn amrywio amser a pherson y ferf yn gywir fel rheol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **EBRILL 4 2014** |
| **TEITL:** | **YMCHWILIAD SAFONAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH/ SYLWADAU'R PWYLLGOR** |

## 1. CEFNDIR

1.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ym mis Ionawr, cyflwynwyd copi o ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y Safonau Arfaethedig Mewn Perthynas â'r Gymraeg.

1.2. Soniwyd yn yr un cyfarfod y byddai disgwyl i Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol Cymru ymateb i Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd Iaith fel rhan o'r cylch cyntaf. Pwrpas yr Ymchwiliad yw dyfarnu pa Safonau sy'n berthnasol i ba sefydliad a sicrhau nad yw gofynion cydymffurfio'r Safonau yn afresymol neu'n anghymesur. Cyflwynir yr Ymchwiliad ar ffurf Holiadur i'w gwblhau erbyn 18 Ebrill.

1.3. Mae'r Holiadur yn cynnwys 136 o gwestiynau ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud, faint o'r gwaith sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ydan ni'n rhagweld unrhyw broblemau gyda chydymffurfio a'r gofynion newydd.

1.4. Yn achos Cyngor Gwynedd, nid ydym yn rhagweld y byddwn yn cael llawer o drafferthion gyda chydymffurfiaeth, gan ein bod eisoes yn cyflawni'r gofynion; yn aml du hwnt i ofynion y Safonau.

## 2. YSTYRIAETHAU PENODOL I WYNEDD

2.1. Fel y nodwyd yn y Pwyllgor blaenorol, pwrpas y Safonau yw sefydlu a gosod cyfres o ofynion cyffredin ar draws y sefydliadau perthnasol yng Nghymru. Mae Cynllun Iaith a diwylliant presennol y Cyngor yn cyfarch y gofynion yma eisoes; yn wir, mae ein pwyslais ar roi blaenoriaeth i'r Gymraeg a'i hyrwyddo, yn mynd tu hwnt i ofynion y Safonau. Gofynnir felly i'r Pwyllgor Iaith ystyried a rhoi sylwadau ar yr hyn dylid ei nodi dan adran "Sylwadau Pellach" yr Holiadur.

2.2. Nodir y meysydd isod fel ystyriaethau i'w trafod fel man cychwyn:

- Byddai'r Cyngor yn falch o dderbyn sicrwydd mai gofynion sylfaenol a gynrychiolir gan y Safonau, ac yn gofyn am gadarnhad o gefnogaeth y Comisiynydd i unrhyw sefydliad sydd am weithredu a datblygu tu hwnt i ofynion craidd y Safonau.

- Byddwn yn gofyn i'r Comisiynydd roi ystyriaeth i rôl Awdurdod fel Gwynedd mewn perthynas â threfniadau partneriaethaol, rhanbarthol ac unrhyw gyd-ddarparu arall. Nod y Cyngor yw sicrhau nad yw trefniadau cyd-weithio'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth ieithyddol. Unwaith eto, byddwn yn croesawu anogaeth i anelu'n uwch na'r Safonau, a'r gefnogaeth i barhau i ddylanwadu ar ddarpariaeth ein partneriaid.

- Nodir yn yr Holiadur i ni fethu a chyrraedd pob Safon, oherwydd methiant sefydliadau eraill: Bydd y Pwyllgor Iaith yn ymwybodol o sawl esiampl o hyn; y frwydr i gael Tystysgrifau Nofio a Ffurflenni Amlosgi Cymraeg er enghraifft.

- Gall rhai o'r Safonau Cadw Cofnod brofi'n broblemus. Gan mai Cymraeg yw'r iaith di-ofyn pan ddaw'r cyhoedd i gyswllt a ni, byddai'n anymarferol cyfri pob cysylltiad â wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan ein bod yn anelu at gydymffurfiaeth 100% o safbwynt cyswllt cyfrwng Cymraeg, mae'n anodd gweld sut byddai cofnod mor fanwl yn ychwanegu gwerth.

**3. GOFYNNIR I'R PWYLLGOR**

3.1. Ystyried y sylwadau a nodir uchod, gan eu haddasu neu ychwanegu atynt yn unol â'r gofyn.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **EBRILL 4 2014** |
| **TEITL:** | **CWYNION IAITH** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I SYLW'R PWYLLGOR** |

## 1. CWYNION WEDI CAEL SYLW LLAWN

1.1. Cyfeiriwyd cwyn gan Gyngor Cymuned i Aelod Etholedig ynglŷn ag iaith wallus mewn e-bost gan aelod o staff y Cyngor. Cafwyd cais gan yr Aelod i gyfeirio'r Swyddog ar Gwrs Gloywi Iaith.

1.2. Yn dilyn sgwrs rhwng y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith a'r Tiwtor Cymraeg, cadarnhawyd mai'r drefn arferol ar gyfer cychwyn gwersi yw i'r Rheolwr Llinell gyfeirio'r swyddog ymlaen.

1.3. Cysylltwyd â'r Rheolwr Llinell, ac ymddengys fod y Swyddog dan sylw yn siaradwr Cymraeg, ond nad oes disgwyl iddo ohebu'n gyhoeddus fel rhan o'i waith dydd-i-ddydd; Hynny yw, mae ei sgiliau Cymraeg yn gymesur a gofynion ei swydd. Mae'n ymddangos yn yr achos yma bu iddo ysgrifennu e-bost i arbed amser, gan fod yr Adran mewn cyfnod prysur.

1.4. Awgryma'r Rheolwr Llinell, gan nad oedd y sefyllfa'n debyg o godi yn aml (os o gwbl eto) mai'r ymateb cymesur fyddai i atgoffa ei staff o bwysigrwydd gwirio unrhyw neges sy'n cael ei hanfon tu hwnt i'r Cyngor. Byddai'n tynnu sylw staff at CySill a'r help sydd ar gael drwy Uned Gyfieithu'r Cyngor: Nodir bod y datrysiad yma'n cyd-fynd a gofynion y Cynllun Iaith.

1.5. Hysbyswyd yr achwynwyr o'r camau a gymerwyd.

## 1. CWYNION YN DISGWYL YMATEB LLAWN

| DYDDIAD | CWYN | GWEITHRED |
|---|---|---|
| **Mawrth 2014** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chyswllt cyntaf di-Gymraeg ar bedwar achlysur gwahanol yng Nghanolfan Hamdden, Dolgellau (tri chyswllt ffon ac un wyneb-i-wyneb.) | Uwch Reolwr Gweithredol Darparu a Hamdden yn ymwybodol o'r gwyn ac yn darparu adroddiad ar y mater **D.S.** bydd y Rheolwr yn mynychu'r Pwyllgor, a gall roi diweddariad ar lafar |
| **Mawrth 2014** | Cwyn gan Aelod fod yr Adran Gynllunio'n defnyddio fersiwn Saesneg o gyfeiriad mewn gohebiaeth | Cysylltu â'r Adran i'w hatgoffa mai'r fersiwn Cymraeg yn unig a ddisgwylir mewn gohebiaeth gan y Cyngor. Gofyn yn ogystal am sicrwydd nad unrhyw broblem gyda systemau neu bas-data sy'n ei gwneud yn anodd rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg |